# YMARFER CASGLU GWYBODAETH AR-LEIN Y COMISIWN AR GYFIAWNDER YNG NGHYMRU: CRYNODEB BRIFFIO

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Datblygodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru holiadur byr i gasglu barn dinasyddion a gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith am eu profiadau o'r system gyfiawnder yng Nghymru. Y newidyn allweddol o ddiddordeb oedd cwestiwn testun rhydd yn gofyn i ymatebwyr am awgrymiadau ar sut i wella gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru. Roedd y cwestiynau yn gyd-destunol i ddeall nodweddion demograffig ymatebwyr, ac i roi trosolwg lefel uchel o'u profiadau o'r system gyfiawnder yng Nghymru. Bwriad yr ymarfer casglu gwybodaeth hwn oedd darparu ffordd gyflym a hygyrch i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith i gyfrannu at adolygiad y Comisiwn o system gyfiawnder yng Nghymru, ac i ategu cais ffurfiol y Comisiwn am dystiolaeth a sesiynau tystiolaeth lafar.

1.2 Lanlwythwyd y cwestiynau i 'Questback', rhaglen arolygu ar-lein, ac roeddent yn fyw rhwng 20 Awst 2018 a 12 Ebrill 2019. Roedd y ddolen gwahodd yn hygyrch drwy wefan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ac fe'i hysbysebwyd ar sianeli cyfathrebu'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys Twitter.

1.3 Yn dilyn y cyfnod o gasglu data, cafodd yr ymatebion testun rhydd eu dadansoddi yn ôl thema a chyflwynir y canlyniadau yn y ddogfen gyfredol. Mae'n bwysig nodi nad oedd pob ymateb yn syrthio i gategorïau thematig, ac roedd rhai ymatebion yn cynnwys gwybodaeth bersonol. Oherwydd hyn, nid ydym wedi cyhoeddi'r union ymatebion i'r ymarfer casglu gwybodaeth, dim ond y themâu a ddeilliodd ohono ynghyd â detholiad o ddyfyniadau enghreifftiol a gyflwynir yn ddienw er mwyn cynnal cyfrinachedd yr ymatebwyr.

1.4 Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn ddiweddarach eleni a bydd yn gallu cyfeirio at y dadansoddiad cryno o'r ymatebion ynghyd â thystiolaeth arall a gasglwyd ganddo drwy gyflwyniadau ysgrifenedig a sesiynau tystiolaeth lafar.

# 2 PROFFIL YR YMATEBWYR

2.1 Ar gyfer ymarfer casglu data'r Comisiwn, cofnododd meddalwedd yr arolwg 96 o ymatebion. Fodd bynnag, o blith y rhain, ni chwblhaodd pob un yr arolwg cyfan, ac nid atebodd yr holl ymatebwyr yr holl gwestiynau. Oherwydd hyn, ni fydd y cyfanswm ar gyfer pob eitem bob amser yn 96.

2.2 Roedd tua hanner yr ymatebwyr a oedd wedi profi'r **system cyfiawnder sifil** yng Nghymru wedi gwneud hynny yn rhinwedd eu swydd broffesiynol (Tabl 1). Roedd ymatebion testun rhydd o dan yr opsiwn 'arall' yn cynnwys gwirfoddolwyr, myfyrwyr, dadansoddwr, y rhai heb unrhyw brofiad, a newyddiadurwr.

| Tabl 1: Ydych chi erioed wedi cael profiad o'r system cyfiawnder sifil yng Nghymru mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol? Dewiswch bob un sy'n gymwys: | Canran |
|---|---|
| Proffesiynol | 48% |
| Hawlydd | 27% |
| Diffynnydd | 17% |
| Tyst | 10% |
| Arall (nodwch) | 23% |
| N | 60 |

2.3 O ran y **system cyfiawnder troseddol** yng Nghymru, nododd dros hanner y rhai oedd â phrofiad ohoni fod hyn yn rhinwedd eu swydd broffesiynol (Tabl 2). Roedd ymatebion testun rhydd o dan yr opsiwn 'arall' yn cynnwys gwirfoddolwyr, myfyrwyr, rhiant dioddefwyr neu ddiffynyddion, newyddiadurwr, y rhai heb unrhyw brofiad ac ymchwilwyr.

| Tabl 2: Ydych chi erioed wedi cael profiad o'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol? Dewiswch bob un sy'n gymwys: | Canran |
|---|---|
| Proffesiynol | 65% |
| Dioddefwr | 19% |
| Diffynnydd | 15% |
| Tyst | 25% |
| Arall (nodwch) | 17% |
| N | 52 |

2.4 Mae'r tablau canlynol yn darparu gwybodaeth am rywedd (Tabl 3), oedran (Tabl 4) a lleoliad (Tabl 5) yr ymatebwyr. Dylid nodi bod yr ymatebwyr i'r ymarfer casglu gwybodaeth hwn yn hunan-ddethol, ac ni fwriedir i'r sampl fod yn ystadegol gynrychioliadol o unrhyw grŵp neu boblogaeth benodol. Fodd bynnag, mae'r cwestiynau hyn yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol lefel uchel am y rhai a

ymatebodd. Er enghraifft, dengys Tabl 5 fod nifer anghymesur o uchel o ymatebion wedi dod oddi wrth bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain (gweler Atodiad 1 am y ffordd y mae awdurdodau lleol wedi cael eu grwpio yn rhanbarthau).

| Tabl 3: Beth yw eich rhywedd? | Canran |
|---|---|
| Gwryw | 49% |
| Benyw | 40% |
| Arall | 0% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10% |
| N | 77 |

| Tabl 4: Beth yw eich oedran? | Canran |
|---|---|
| O dan 18 | 0% |
| 18-24 | 13% |
| 25-34 | 7% |
| 35-44 | 22% |
| 45-54 | 29% |
| 55-64 | 13% |
| 65-74 | 4% |
| 75+ | 0% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10% |
| N | 68 |

| Tabl 5: Ble rydych chi'n byw? | Canran |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 7% |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 8% |
| Bae Abertawe | 10% |
| Y Cymoedd | 10% |
| Caerdydd a De-ddwyrain Cymru | 64% |
| Rwy'n byw y tu allan i Gymru | 1% |
| N | 77 |

# 3 GWELLA'R SYSTEM GYFIAWNDER YNG NGHYMRU

3.1 Daw'r wybodaeth yn yr adran hon o'r ymatebion testun rhydd i'r cwestiwn: **'Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gallwn wella'r gwasanaethau hyn yng Nghymru, rhowch wybod i ni isod.'** Yna cafodd y rhain eu codio yn ôl thema gyda dull casgliadol (gan ddefnyddio'r data i lywio'r canfyddiadau yn hytrach nag unrhyw lenyddiaeth neu fframwaith gosodedig).

3.2 Deilliodd pedair prif thema o'r ymatebion i'r ymarfer casglu data:

- Problemau gyda'r wybodaeth a ddarparwyd yn y system gyfiawnder;
- Barn ar gyllido:
- Canfyddiadau bod y system gyfiawnder yn anghyfiawn;
- Barn ar y dedfrydau a roddwyd.

3.3 Ar gyfer pob thema, darperir gwybodaeth bellach a dyfyniadau enghreifftiol isod. Daw'r dyfyniadau hyn yn uniongyrchol o'r ymatebion i'r ymarfer casglu gwybodaeth.

### PROBLEMAU GYDA'R WYBODAETH A DDARPARWYD YN Y SYSTEM GYFIAWNDER

3.4 Yn gyffredinol, roedd problemau gyda'r wybodaeth a ddarparwyd yn ymwneud â phrinder gwybodaeth, awydd am wybodaeth sydd ar gael yn haws ac awydd am iaith a phrosesau haws eu defnyddio.

3.5 Roedd yr ymatebwyr am gael gwybodaeth a chyngor ymarferol, fel y dengys y dyfyniad hwn:

*'Where should forms be submitted and where/when do you pay for forms? What are counters? What is the ushers point? Where should you wait for court appointments? How long do different court appointments tend to last? What should you wear to a court appointment?'*

3.6 Yn ogystal â ffyrdd cyflymach o gael gwybodaeth o ansawdd:

*'The big issues are a) speed of response and (b) accuracy of information provided'.*

3.7 Mynegwyd barn glir ar yr awydd i gael prosesau dealladwy a hawdd eu defnyddio, sy'n cynnwys iaith hawdd ei deall:

*'Forms should be written in plain English'*

3.8 A hefyd y dull darparu:

*'Filling out an application on a mobile is very difficult. The level of IT expertise in amongst the general population does not extend to wrestling with court forms online'.*

BARN AR GYLLIDO

3.9 Canolbwyntiodd y farn ar gyllido yn bennaf ar yr awydd i gymorth cyfreithiol fod ar gael i fwy o bobl, yn ogystal â dicter cyffredinol tuag at y dyraniadau cyllido ac effaith ganfyddedig cyni.

3.10 Dywedodd yr ymatebwyr y dylai gwasanaeth wedi ei ariannu fod ar gael i fwy o bobl:

*'Make it free to access decent quality legal support and assessments from independent expert witnesses… even those of modest means do not qualify [for legal aid].'*

3.11 Yn ogystal â bod yn ddig o ran dyraniadau cyllido:

*'Four chief constables, 4 police and crime commissioners, 4 heads of IT-HR-training is disgusting by today's standards – waste of public money'*

3.12 Ac awydd cyffredinol am fwy o gyllid yn y maes:

*'We need to reverse the austerity policies […] and provide adequate resources for police and justice system.'*

CANFYDDIADAU BOD Y SYSTEM GYFIAWNDER YN ANGHYFIAWN

3.13 Roedd canfyddiadau o anghyfiawnder yn cynnwys anghyfartaleddau daearyddol, anghyfartaleddau o ran rhywedd ac anghyfartaleddau economaidd, yn benodol, nodi bod gorfod cynrychioli eich hun yn gynhenid annheg o gofio pa mor afresymol yw cost cynrychiolaeth.

3.14 Yn ddaearyddol, arweiniodd colli llysoedd mewn ardaloedd lleol at ganfyddiadau o anghydraddoldebau o ran anghenion teithio, yn ogystal â phroblemau gyda dedfrydau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol:

*'I live in Pontypridd and have seen that there are no more law courts in the area (ours has just been demolished) and the nearest ones are either in Merthyr Tydfil or Cardiff, which are difficult to reach on public transport. They're not located (and joined up with transport infrastructure) very well at all.'*

3.15 Nododd anghyfartaleddau o ran rhywedd duedd ganfyddedig mewn cyfraith teulu o blaid menywod:

*'The lack of fathers winning custody implies that family law is potentially biased towards mothers.'*

3.16 Ystyriwyd bod hunan-gynrychiolaeth (a elwir fel arall yn ymgyfreithiwr drosto'i hun (LIP)) yn annheg gan yr honnwyd ei bod yn gynrychiolaeth is-safonol:

*'How is a litigant in person to know the basics?', 'LiP's lack of knowledge should not be exploited'*

3.17 A'i fod yn effeithio'n anghymesur ar y rhai nad ydynt yn gyfoethog:
*'People just cannot afford justice'.*

BARN AR DEDFRYDU

3.18 O ran dedfrydu, mynegwyd barn y dylai carchar fod yn broses o adsefydlu yn ogystal â bod yn gosb am drosedd. Hyrwyddwyd cyfiawnder adferol, yn ogystal â gwaith rhagweithiol, newidiadau i ddedfrydau troseddau ieuenctid, a'r angen am garchardai i fenywod yng Nghymru.

3.19 Cyfeiriwyd at gyfiawnder adferol mewn sylwadau fel rhywbeth cadarnhaol er bod canfyddiad bod dulliau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith yn wael:

*'Restorative approaches, including restorative justice must be more properly embedded and widely used but not as the police currently do'.*

3.20 Mynegwyd hefyd fod yn well ganddynt ddulliau mwy rhagweithiol neu ataliol:

*'Dealing with people without getting them before the courts, other reference and treating the cause of the crime and not the symptoms.'*

3.21 A oedd yn cyd-fynd â sylwadau ar newidiadau i wasanaeth ieuenctid:

*'These are children with behavioural problems who need support to change'.*

3.22 Ymhlith meysydd eraill a gwmpaswyd nad oeddent yn syrthio i gategorïau thematig roedd:

- Yr angen am ddulliau cynllunio gwell o ryddhau pobl o'r carchar fel y gallent gael eu hailgyflwyno'n well mewn cymdeithas ar ôl eu rhyddhau;
- Awydd i gyd-gynhyrchu â chynrychiolwyr cymunedol, academyddion ac ymarferwyr;
- Awydd i ddatganoli pwerau cyfiawnder yn fwy i Gymru;
- Awydd i ddeall yr effeithiau emosiynol yn ogystal â'r effeithiau ymarferol ac ariannol o ymwneud â'r system gyfiawnder;
- Yr angen i swyddogion gael eu hyfforddi mewn sgiliau meddal (e.e. i ddelio'n effeithiol â phobl mewn ffordd ddeallus yn emosiynol) yn ogystal â sgiliau proffesiynol;
- Yr angen am hyfforddiant, profiad a thâl gwell i staff (fel staff carchar a'r heddlu).

3.23 Dylid nodi bod y crynodeb briffio hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel cychwynnol o'r themâu a godwyd yn yr ymarfer casglu gwybodaeth ar-lein. Mae'r data amrwd yn cynnwys gwybodaeth bellach a gaiff ei hystyried fel rhan o ddadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad i'r cais ffurfiol am dystiolaeth gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.

# Atodiad A: Rhanbarthau

| Rhanbarth | Awdurdodau Lleol fesul Rhanbarth |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn |
| | Gwynedd |
| | Conwy |
| | Sir Ddinbych |
| | Sir y Fflint |
| | Wrecsam |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceredigion |
| | Powys |
| | Sir Benfro |
| | Sir Gaerfyrddin |
| Bae Abertawe | Abertawe |
| | Castell-nedd Port Talbot |
| | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cymoedd | Rhondda Cynon Taf |
| | Merthyr Tudful |
| | Caerffili |
| | Blaenau Gwent |
| Caerdydd a De-ddwyrain Cymru | Bro Morgannwg |
| | Caerdydd |
| | Casnewydd |
| | Torfaen |
| | Sir Fynwy |